


Brig y Goeden



Dial Capten Gwaed

PAUL SHIPTON



Dial Capten Gwaed

PAUL SHIPTON

Lluniau gan Judy Brown



DRAKE

Capten Gwaed

Roeddwn i'n meddwl fy mod yn mynd
o'm co' pan welais i'r llun ar y wal yn
wincio arna i.



Mae'n rhaid 'mod i wedi cerdded
heibio i'r llun yna o'r môr-leidr Capten
Gwaed fil o weithiau, ond doedd dim byd
tebyg i hyn erioed wedi digwydd o'r
blaen.

Yn y llun roedd gwên arswydus yn
tywynnu trwy farf drwchus y môr-leidr.
Eisteddai parot coch a glas ar ei ysgwydd.
Roedd gan y capten fflach yn ei lygaid -
golwg a oedd yn cuddio breuddwydion
am drysor cudd a darnau aur.


Yn ôl chwedl leol roedd Gwaed yn arfer aros yn ein pentre ni, pan nad oedd e allan ar y môr. Fe oedd y rheswm pam roedd twristiaid yn dod i'n pentre ni nawr - a pham roedden nhw'n dod i letya yn lle Gwely a Brecwast fy mam a 'nhad.



Fel arfer, edrychwn i ddim ddwywaith ar y llun, ond roedd heddiw yn wahanol. Roedd athro hanes o'r brifysgol wedi bod yn gwneud ymchwil i hanes Capten Gwaed. Yr Athro Caledfryn oedd ei enw ac roedd e'n aros yn ein lle Gwely a Brecwast ni.

Roedd hi'n stori fawr yn lleol a heddiw,
roedd criw teledu'n dod i glywed yr hyn
roedd yr athro wedi'i ddarganfod.

Edrychais i fyny ar lun Capten Gwaed
a siarad yn uchel.



A dyna pryd y winciodd llun Capten
Gwaed arna i.

Siglais fy mhen. Oeddw'n mynd
o'm co'?

Winciodd y llun eto. Ymledodd gwên siarcaidd y môr-leidr hyd yn oed yn lletach.

Ac yna camodd y môr-leidr o'r llun.



Ces i gymaint o sioc allwn i ddim symud gewyn. Doedd y llun ei hun heb newid dim. Ond nawr roedd Capten Gwaed yn sefyll yn union o' mlaen i. Roedd e'n dal i wenu.

Sylweddolais fy mod i'n gallu gweld yn syth trwyddo e. Allai e fod yn..?

Glaniodd llygad gwyllt y môr-leidr arna i.



Ochneidiodd y parot ar ei ysgwydd.





Ciledrychais yn nerfus ar y drws.
Allwn i ddianc? Na, roedd y môr-leidr
tryloyw yn y ffordd. “Ym, shwmae,”
atebais i.

Wel, beth arall allwn i ei ddweud?
Edrychodd y môr-leidr arna i o'm
corun i'm sawdl.

Dim llawer o gnawd arnat ti, nac oes?
Gwnelet ti was caban
digon da 'sbo.

Mae e'n dweud
ei bod yn dda ganddo
gwrdd â thi. Ei enw yw Capten
Gwaed. A Hector ydw i. Braf i
gwrdd â thi, rwy'n siwr.

Roedd y môr-leidr yn sylu o'i amgylch. Pwyntiodd at y bwrdd gan grafu ei farf. "Beth bo hyn 'te?"


Hisiodd y parot, "Beth YW hyn? - rwy'ti'n feddwl."

Anwybyddodd y capten e. Roedd e'n edrych ar fodel o long ar y bwrdd. "Mae hwn yn gwbl anghywir," meddai. "Dylai'r hwyliau fod - HEI!"

Estynnodd am y llong ond aeth ei law yn syth trwyddi hi. Aeth hi'n syth trwy'r bwrdd hefyd.



Roedd Hector y parot yn ddigyffro.



Wel, beth
oeddet ti'n ei ddisgwyl?
YSBRYD wyt ti
wedi'r cyfan.

Dyna'r union beth roeddwn i wedi bod yn meddwl. Ond roedd clywed y gair yn cael ei ddatgan ar goedd - 'ysbryd' - yn ei wneud yn real imi.

Felly llewygais i.



Mae Tasg i'w Gwneud

Doeddwn i ddim yn anymwybodol am yn hir. Pan agorais fy llygaid, roedd dau wyneb yn plygu drosto i - dau wyneb tryloyw. Straffaglais i'm traed.



Roedd hynny'n fy ngwylltio ychydig.

Dal dy ddŵrl Beth wyt ti'n meddwl y byddai'r mwyafrif o bobl yn ei wneud petaen nhw'n gweld ysbyrd?



Cododd y môr-leidr ei war.

Beth bynnag, beth
rwyf ti'n ei wneud yma?




Pylodd gwên Gwaed. Ond roedd y
parot i'w weld yn fwy siwr ohono'i hunan.

Wel... Dwi'n credu ein
bod ni ysbrydion yn
ymddangos dim ond pan
mae tasg i'w gwneud.
Wedi'r cyfan, fel arall
byddai ysbrydion ym
mhobman, oni fydden nhw?



Roedd hyn yn gwneud synnwyr.
Nodiodd y capten hefyd.


Yna roedd golwg ddryslyd arno. "Ie, ond beth bo'r dasg?" holodd e. Brathodd Hector, "Beth YW'R dasg? Wel, mae a wnelo hi rywbeth â *nhw* mi waranta i."



Siglodd yr aderyn ei big tuag at y ffenest. Roedd un o'r criw teledu yn cerdded heibio.

Wrth gwrs! Mae'r criw teledu yma i wrando ar yr Athro Caledfryn. Mae e wedi bod yn darganfod popeth amdanoch CHI.





Cychwynnodd y môr-leidr tuag at y drws.



Roeddwn i'n meddwl am y cythrwfl y byddai'n ei achosi. Ond daeth chwerthiniad iach o enau'r capten.

“Am fy mod i'n ysbryd, was? Paid ti â phoeni dy ben am hynny. Ti fydd yr unig un a all ein gweld neu ein clywed ni.”

Plygodd y parot ymlaen.



Yr Athro Caledfryn

Roedd e'n wir!

Roedd grŵp bach wedi ymgynnull yn ein gardd ffrynt. Aethon ni a sefyll yna a welodd neb arall y môr-leidr swmpus a'i barot.

Wedi ychydig funudau daeth yr Athro Caledfryn allan.



Taflodd olwg nerfus ar y bobl oedd yno. Cyfarfu ei lygaid â fy rhai i am eiliad, ond gwibion nhw i ffwrdd yn gyflym. Meddyliais cymaint roedd yr athro wedi newid ers iddo ddod yn gynta i'n lle Gwely a Brecwast ni.

Ar y cychwyn cynta roedd yn ymddangos yn hyfryd, ond yna roedd e wedi mynd yn llai a llai cyfeillgar.

Rhoddodd y dyn camera yr arwydd i ddechrau.

Foneddigion a Boneddigesau, fel y gwyddoch chi, dwi wedi bod yn gwneud ymchwil ar y môr-leidr honedig, Capten Gwaed.



Dechreuodd yr ysbryd wrth fy ochr sbladdrio.

'môr-leidr honedig'?
BETH y bo e'n ei feddwl?

Beth MAE
e'n ei feddwl?

Dyna fo'r hyn
a ddywedais i.



Edrychais o'm cwmpas. Doedd neb arall yn gallu eu clywed nhw'n dadlau.

Gwenodd yr athro. "Wedi llawer o waith, dwi'n sicr nawr nad yw'r môr-leidr, Capten Gwaed, wedi bodoli erioed."



Daeth ebychiadau o sioc o'r gynulleidfa. Cododd yr Athro Caledfryn ei law i gael tawelwch. Aeth yn ei flaen, "O, mae'n wir fod yna ddyn a oedd yn ei alw'i hun yn 'Gapten Gwaed'. Ond nid dyna ei enw go iawn.

"Mae f'astudiaeth i o bapurau hanesyddol a mapiau wedi dangos ei fod e'n ddim mwy na chelwyddgi clyfar - yn dwyllwr. Twyllodd bawb â'i storïau ffantastig am fywyd ar y cefnforoedd."

Roedd ysbryd Capten Gwaed yn hercian o gwmpas yn wyllt gacwn. Roedd yn rhaid i'r parot gydio'n dynn er mwyn aros ar ei ysgwydd.



Cododd gohebydd ei llaw.




Beth am y trysor?

Roedd y storiâu i gyd yn honni bod y môr-leidr wedi claddu cist yn llawn trysor yn yr ardal.

Siglodd yr athro ei ben.



Roedd hyn yn ormod i ysbryd Capten Gwaed.



Doeddwn i ddim yn deall y cyfan, ond deallais y syniad cyffredinol - doedd Capten Gwaed ddim yn hapus.

Llwyddodd y parot i'w dawelu o'r diwedd.

Fydd neidio o gwmpas
a gweiddi ddim yn
dy helpu
i glirio dy
enw.

Stopiodd y capten. Edrychai'n debyg i blentyn drwg sydd newydd gael stŵr. Trodd y parot ata i.

Dywedodd Caledfryn rywbeth
am bapurau hanesyddol.
Ble gallen
nhw fod?

Mae X yn Nodi'r Fan

Doeddwn i ddim ond yn cael mynd mewn i ystafelloedd yr ymwelwyr mewn 'argyfwng' (chwedl mam). Ond os nad oedd hyn yn argyfwng, beth oedd?

"Gloi!" dywedais. "Pan fydd Caledfryn wedi ateb cwestiynau'r gohebwyrr, daw e 'nôl i'w ystafell."



Wrth lwc chymerodd hi ddim yn hir inni ddod o hyd i'r papurau. Roedd pentwr bach yn gorwedd ar ben bwrdd yn y gornel ac ar eu pen gorweddaï hen fap.





Sgubodd y capten e i fyny yn ei law
gigog. Gwelais ei fod yn fap o'r arfordir
yn ymyl ein pentref.

Prociodd y capten fys at y map.

"Mae X yn nodi'r fan, was. Dyna ble
mae'r trysor!"


Llamodd cwestiwn i fy mhen.



Crafodd Gwaed ei farf anferth.



Roedd gan Hector y parot ateb.



Ar hynny clywon ni sŵn - roedd sŵn traed ar y grisiau, ac roedden nhw'n dod y ffordd yma.



Caledfryn!
Beth wnawn
ni?



Symudodd y môr-leidr na'r parot
ddim.

Y cwestiwn yw,
beth rwyf TI'N
mynd i'w wneud?
Dyw e ddim yn gallu
ein gweld ni.



Bwrais olwg wyllt o'm cwmpas gan
chwilio am guddfan. Dan y gwely!



Syrthiais i'r llawr a llithro dan y gwely.
Yna arhosais i.

Agorodd y drws. Trampodd traed i
mewn i'r ystafell. Yna roedd sŵn
botymau'n cael eu gwasgu ar ffôn.

Caledfryn
yma.

Roedd saib
wrth i'r person
ar ochr arall
y llinell siarad.

Do, do,
credon nhw bopeth. Nawr
gallwn ni gael hyd i'r trysor
heb ddim problem.

Daeth tinc o ofid i lais yr
athro.

Un peth - fydd neb
yn cael niwed, na fydd?



Yna, ar ôl eiliad, ochneidiodd gan ddweud, "Iawn. Dof i â'r map a chwrdd â thi yn syth."

Roedd siffrwd papurau, yna clic y drws. Roedd Caledfryn wedi gadael.

Pan godais ar fy nhraed, roedd Capten Gwaed wedi gwylltio'n llwyr. Meddyliais i efallai y byddai'n ffrwydro fel llosgfynydd.



Stopiodd ac edrych ar y bwrdd.
Roedd y map wedi diflannu.


“Mae’n rhaid dy fod ti’n gwybod ble
mae dy drysor dy hunan!” meddwn i.

Daeth golwg hurt ar wyneb y capten.




“Wel dyna pam dynnais i fap, was. Fel
na fyddai RHAID imi gofio.”

“Mae’n iawn,” meddai’r parot, gan
ffluwchio ei blu’n falch. “Nawr ein bod
wedi’i weld eto dwi’n gallu cofio’r map i
gyd.”



Hector yn Arwain y Ffordd


Chwarter awr yn ddiweddarach roedden ni'n brasgamu ar draws y traeth tuag at y fan oedd wedi'i nodi ar y map. Cariais raw o'n sied dros fy ysgwydd.



Sut elli di fod yn siwr ei fod e yno o hyd? Mae hi wedi bod yn hydoedd, on'd ydi?

“Dros 250 o flynyddoedd,” cytunodd y parot.

Ond doedd y capten ddim yn poeni.



Dyna fo hwyl trysor, was. Dim fel rhyw hen fanc diflas.

O leia doedd dim gwestyau na thai yn y fan hyn, meddyliais i. Dychmygwch petai rhywun wedi adeiladu arcêd chwaraeon yn union uwchben y trysor!

Wrth inni gerdded, ffurfiodd cwestiwn yn fy meddwl. Roeddwn i'n gwybod nad oedd e'n gwrtais, ond roedd yn rhaid imi ofyn. Wedi'r cyfan, pa mor aml ydych chi'n sgwrsio gydag ysbryd?



Oes ots gyda ti os ydw i'n gofyn rhywbeth?
Sut gwnest ti... ti'n gwybod...farw?

“Camgymeriad mawr oedd e, was,” meddai'r capten o'r diwedd. “Roeddwn i bob amser yn meddwl y byddwn i'n marw mewn brwydr ar y môr. Ond nid cleddyf na chanon laddodd fi. Nid siarcod chwaith.”

Oeddod e.

Dywedais eto, "Felly sut buest ti farw?"
Torrodd y parot ar draws.

Tagodd e ar goes cyw iâr.
Roeddwn i'n dweud wrtho o hyd i
beidio â llowcio ei fwyd - ond
wnâi e wrando? O na,
nid yr enwog Capten Gwaed.



Taflodd y parot olwg flin ar y môr-
leidr.

Beth sy'n waeth, syrthiodd e
ar fy mhen i. Gwasgodd e fi mor
wastad â llechen.
Felly bâm i farw hefyd.




Edrychodd y môr-leidr yn feddylgar.

Y trafferth gw, roedden ni ar dir
sych pan fuom farw. Mae hynny'n
golygu ein bod ni'n sownd yma nawr. Ond
mae ein mêts ni i gyd allan ar y môr.



Sniffiodd e'r awyr hallt ac edrych yn
hiraethus i gyfeiriad y môr.


Cerddon ni weddill y ffordd mewn
distawrwydd. Wrth inni agosáu
dechreuodd Hector ddweud wrthym ble i
fynd.




Tri cham i'r dwyrain
a... fan hyn. Dyma'r
union le!

Roedden ni'n sefyll ar ddarn o dir
gwastraff tywodlyd. Taranai'r môr llwyd
yn y pellter.

Eisteddodd y capten.



Iawn, was. Dechreuâ balu!




Dechreuais i balu.

Roedd y pridd tywodlyd yn feddal, ac i ddechrau doedd y gwaith ddim yn rhy anodd. Ond cyn hir dechreuodd fy ysgwyddau frifo. Yna gwynegu. Teimlai fy nghefn fel petai eliffant wedi'i ddefnyddio fel clustog.

Ceisiodd Capten Gwaed fy nghadw wrthi.

Dim yn ddrwg was. Dal at i!



Roeddwn i'n dyheu iddo gau ei ben.

Palais a phalais. Tyfodd y twll yn ddyfnach ac yn ddyfnach. Brifai fy mreichiau'n fwyfwy.



Nodiodd y parot a'r môr-leidr.

Es i yn fy mlaen â'r palu. Pan oeddwn i ar fin rhoi'r ffidil yn y to, trawodd fy rhaw rywbeth caled. Piben nwy yn ôl pob tebyg, meddyliais.

Palais ychydig yn rhagor nes y gallwn i grafu'r haen olaf o dywod oddi ar y peth.



A dyna fe - caead hen gist fôr.



Herciodd y capten i fyny ac i lawr yn gynnwrf i gyd.

Dyna hi,
was. Fy
nghist
aur!



Gwelais hyd yn oed lygedyn o ddiddordeb yn llygaid Hector. Palais yn ddyfnach nes inni allu gweld y clo. Yna sylwais ar rywbeth arall wedi'i gladdu nesa at y gist.



Sach oedd hi, a'r tu fewn roedd cleddyf cwta, crwm. Roedd e'n rhydlyd, ond roedd e'n dal i edrych fel petai modd ei ddefnyddio.



“Fy nghleddyf!” gwaeddodd Capten Gwaed, yn debyg i rywun yn cyfarch hen gyfaill coll.




“A wel,” esboniodd y môr-leidr,
“doeddwn i ddim am ddangos fy wyneb
yn nhŷ Mam druan gyda chleddyf, nawr
nac oeddwn i? Roeddwn i’n meddwl y
gallwn ei godi yn nes ymlaen. Sut
roeddwn i fod i wybod y byddai coes cyw
iâr yn gwneud amdana i? Wnes i ddim
ond -”

Torrodd Hector y parot ar draws.

Hm. Mae'n gas gen
i dorri ar draws,
ond mae dynion
yn dod y
ffordd hyn.

Y Frwydr ar y Traeth

Roedd tri dyn yn brasgamu tuag atom a'r
Athro Caledfryn oedd un ohonyn nhw!
Roedd y ddau ddyn gydag e yn cario
rhaw yr un. Doedden nhw ddim yn
edrych fel petaen nhw'n chwilio am
ffeithiau hanesyddol.



Gwylodd y capten, ei lygaid yn
pefrio'n eiddgar. "Dal dy dir, was,"
sibrydodd e. Roedd ofn arna i, ond
gwnes i'r hyn a ddywedodd wrthyf.
Pwysais yn erbyn fy rhaw ac aros.

Pan gyrhaeddod nhw atom ni,
edrychodd un o'r dynion arna i'n
oeraidd.

Wel, wel. Mae'n ymddangos
fel petai'r crwt yma wedi
gwneud y palu drosom ni.



Tyrrodd y dynion o gwmpas y twll.
Craffon nhw i lawr ar y gist ac roeddwn
i'n siwr bod eu meddyliau'n troi gyda'r un
syniad- AUR!



Ond edrychai'r Athro
Caledfryn yn ofidus.

Nawr bant
â thi, Hywel.



Roedd fy nghalon yn pwnio.

Beth wna
i?



Chwyrnodd un o'r dynion eraill,
"Dywedodd e cer o 'ma, grwt." Cododd
y rhaw yn fgythiol.



Ond doeddwn i ddim wedi bod yn
siarad â nhw - roeddwn i wedi bod yn
siarad â'r capten.

Atebodd Gwaed ddim. Plygodd y
capten annaearyl a chydio yn ei gleddyf.



Wrth gwrs, fedrai Caledfryn a'r ddau
labwst ddim gweld na chlywed y môr-
leidr. Cyn belled ag y gallen nhw weld,
roedd y cleddyf yn hedfan i'r awyr ar ei
liwt ei hunan. Chwifiodd arny'n nhw'n
fygythiol.



Edrychai'r dynion wedi'u harswydo.
Meddyliais eu bod nhw am redeg, ond
yna bloeddiodd un llabwst.




Cododd y ddau labwst eu rhofion ac
ymosod ar y cleddyf.

Llamodd Capten Gwaed ati. Am ddyn
mor fawr roedd e'n syfrdanol o gyflym.



Sbonciodd rhwng y ddau labwst mor
osgeiddig â dawnsiwr bale.

Yna waldiodd un ohonyn nhw ar ei ben ôl â llafn y cleddyf. Roedd e'n chwerthin yn wyllt.



Dilynodd y capten hynny â chnoc ar gopa'i ben.




Taflodd y llabwst ei raw i lawr a ffoi. Trodd Capten Gwaed at y llabwst arall.

Yn y cyfamser cipiodd yr athro y rhaw
o'm dwylo i a neidio i mewn i'r twll.
Roedd e'n daer i gyrraedd y gist.




Cheisiais i ddim rhwystro'r athro. Dim
ond gwylio wnes i wrth i Capten Gwaed
wynebu'r ail labwst.

Roedd hwn yn ymddangos yn fwy
caled, ond roedd y capten yn gwneud i
bethau edrych yn hawdd. Ysgubodd y
cleddyf i fyny a hedfanodd pob botwm
oddi ar grys y dyn. Syrthiodd ei fola
gwelw allan yn fflemp.




Lledodd llygaid y dyn mewn braw ac i
ffwrdd ag e hefyd nerth ei draed.
Rhoddais fonllef.

Ar hynny, i lawr yn y twll, cododd yr Athro Caledfryn y rhaw yn uchel uwch ei ben. Trawodd hi i lawr ar glo rhydlyd y gist â chlec fain.



Torrodd y clo yn glec.

Rhewodd y ddau ohonom, Capten Gwaed a finnau, wrth glywed y sŵn. Dyma fe! Gwylion ni wrth i Caledfryn gydio yn y clawr a'i godi'n araf.



Edrychon ni lawr i mewn i'r gist a gweld ... dim byd. Roedd hi'n wag. Llanwyd fy nhrwyn ag oglau pren yn pydru.

Beth? All e fyth bod-



Edrychai'r athro wedi'i syfrdanu. Brwydrodd i dynnu anadl. Rhedodd ei ddwylo dros waelod y gist fel petai rhywbeth wedi'i guddio yno.

Ond doedd dim byd.

Os oedd Caledfryn wedi'i syfrdanu, roeddwn i'n meddwl y byddai Capten Gwaed wedi'i arswydo.

Ond, na - roedd y môr-leidr yn piffian chwerthin. Chwyddodd y piffian i fod yn chwerthin lond ei fol. Taflodd ei ben yn ôl a rhuo chwerthin. Roedd hyd yn oed y parot yn gwenu.




Gwelodd y capten fy ngolwg ddryslyd.

“Wyt ti'n gweld y llythrennau ar waelod fy nghist?” holodd.

Plygais. Roedd y llythrennau SB wedi'u cerfio yn y pren.






Mae SB yn sefyll
am Seth Brochfael, yr
is-gapten.

Ar ôl imi drengi, mae'n rhaid
fod Seth wedi ffeindio'r
trysor. Yr hen walch cyfrwys!

Torrodd y capten allan i chwerthin eto.
Straffaglodd yr Athro Caledfryn allan
o'r twll. Roeddwn i bron ag anghofio
amdano fe. Edrychai'n ddryslud.



Hywel, beth sy'n digwydd?
A phwy wyt ti'n siarad?


Ond cyn i fi allu ateb daliodd rhywbeth
fy sylw. Rhywbeth allan ar y môr.
Rhywbeth a oedd yn dod yn nes. Trois
i'w wyllo.

I ddechrau roedd e'n aneglur, ond yn
araf daeth yn fwy clir. Llong oedd hi -
llong enfawr *annaearol*.



Ymddangosai fel petai'n arnofio
uwchben y dŵr. Hedfanai baner ddu a
gwyn yn falch o'r hwylbren - y benglog ac
esgyrn croes!

Diferodd deigr yn o lawenydd i lawr
grudd Capten Gwaed ac i mewn i'w farf.



Cododd bloedd enfawr oddi wrth y
môr-ladron wrth iddyn nhw weld eu
capten. Gwaeddodd môr-leidr â sgarff
dros ei ben.



Roedd y capten fel petai'n hesb o
eiriau.

Nid felly Hector.

Am beth rydyn ni'n aros? Mae'n edrych fel petai'n gwaith ar ben.



Ceisiodd y capten bwysu ei law ar fy ysgwydd. Aeth e'n syth trwyddi.

Diolch am bopeth, was.

Finnau hefyd.




Ac yna cododd y capten yn araf i'r awyr nes iddo gyrraedd y llong.



O'r diwedd roedd Capten Gwaed yn ôl gyda'i griw o fôr-ladron ffyrnig!

Wedyn trodd y llong a llithro i ffwrdd tuag at y môr mawr.



Wrth iddi fynd, aeth yn llai a llai eglur, tan o'r diwedd allwn i weld dim.

Ond doedd Capten Gwaed ddim wedi gorffen eto. Ar yr union eiliad y diflannodd o fy ngolwg, ebychodd yr Athro Caledfryn. Roedd e'n edrych allan i'r môr - i gyfeiriad y llong annaearyl.




Yn sydyn, deallais. Roedd Hector wedi dweud y gallen nhw ddewis un person yn unig i'w gweld. Cyn iddyn nhw adael am byth, roedden nhw wedi penderfynu caniatáu i'r athro eu gweld. Ond pam?


Wedi ychydig funudau trodd Caledfryn
ata i. Roedd ei lygaid yn wlyb gan
ddagrau.



Edrychodd yr athro 'nôl allan i'r môr.



Oeddodd am eiliad a gallwn weld fod ei feddwl yn troi fel chwyrligwgan.



Bydda i'n ei
alw yn BYWYD MÔR-
LADRON YN YR AIL GANRIF
AR BYMTHEG.

Roedd fy meddwl yn ferw o syniadau - meddyliau fel 'Dyw'r gorffennol ddim wir yn farw,' a 'Mae mwy i hanes na hen lyfrau llychlyd.' Roedd yn anodd troi fy syniadau'n eiriau. Y cyfan ddywedais i oedd hyn.



Mae gen i deitl
gwell ichi - beth
am 'DIAL
CAPTEN GWAED'!

Am yr awdur

Pan oeddwn i'n tyfu i fyny ym Manceinion, roeddwn i wastad am fod yn ofodwr, pêl-droediwr neu (os na fyddai'r rhain yn bosib) efallai'n seren roc. Felly daeth yn dipyn o sioc pan ddes yn athro yn gynta ac wedyn yn olygydd llyfrau addysgol.

Dwi wedi byw yng Nghaergrawnt, Aylesbury, Rhydychen ac Istanbul. Dwi'n dal i grwydro a nawr dwi'n byw yn Chicago gyda fy ngwraig a'r teulu.



Tra ar wyliau gyda'r teulu ar lan y môr, roeddwn yn aml yn chwilio am drysor cudd. Ddes i o hyd i beth? Beth rydych chi'n ei feddwl?

Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 13:

Pecyn A

Dial Capten Gwaed gan Paul Shipton
Yr Anghenfil yn y Wardrob gan Paul Shipton
Dan Ddu gan Susan Gates
Ar Drywydd Stori gan Roger Stevens
Esgyrn! gan Paul Shipton
Y Gôli o 'Nunlle gan Alan MacDonald
Y Siarc Slei, Seimlyd gan Tessa Krailing

Pecyn B

Dwi Eisio, Dwi Eisio gan Paul Shipton
Y Ffisig Ffrwydrol gan Alan MacDonald
Cyfrinach y Gôli gan Paul Shipton
Yn Gynt Na'r Gwynt! gan Paul Shipton
Aros am Aur gan Susan Gates
Y Bwci Bo! gan Michaela Morgan
Sgwad Swigyn gan Paul Shipton

Dial Capten Gwaed

**Ydi Hywel yn colli'i bwyll?
Mae'r llun ar y wal newydd
wincio arno fe.**

Mae angen help Hywel ar
Capten Gwaed a'i barot Hector.
Pam mae cymaint o ddiddordeb gan
yr Athro Caledfryn yn yr hen
fôr-leidr?

A beth sydd a wnelo'r cyfan â'r
gyfrinach am aur a guddiwyd oesoedd
yn ôl.



Brig y Goeddi



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 13

ISBN 0-86174-501-9

DRAKE

ISBN 0-86174-501-9



9 780861 745012